*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 1821

# Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010

## RHAN 4

Gweinyddu

**Canllawiau ynghylch defnyddio sancsiynau sifil**

**11.**—(1) Pan roddir pŵer i reoleiddiwr yn y Gorchymyn hwn i osod sancsiwn sifil mewn perthynas â thramgwydd—

(a) rhaid i'r rheoleiddiwr gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y mae'n defnyddio'r sancsiwn;

(b) yn achos canllawiau ynglŷn â chosb ariannol benodedig, cosb ariannol newidiol, hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu hysbysiad stop, rhaid i'r canllawiau gynnwys yr wybodaeth berthnasol;

(c) rhaid i'r rheoleiddiwr ddiwygio'r canllawiau lle bo'n briodol;

(ch) rhaid i'r rheoleiddiwr roi sylw i'r canllawiau neu'r canllawiau diwygiedig wrth arfer ei swyddogaethau.

(2) Yn achos canllawiau ynglŷn â chosb ariannol benodedig, gwybodaeth am y canlynol yw'r wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(b)—

(a) yr amgylchiadau y mae'r gosb yn debyg o gael ei gosod odanynt;

(b) yr amgylchiadau na chaniateir ei gosod odanynt;

(c) swm y gosb;

(ch) sut y gall y rhwymedigaeth am y gosb gael ei chyflawni ac effaith ei chyflawni; a

(d) hawliau i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau a hawliau i apelio.

(3) Yn achos canllawiau ynglŷn â chosb ariannol newidiol, hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad adfer, gwybodaeth am y canlynol yw'r wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(b)—

(a) yr amgylchiadau y mae'r gofyniad yn debyg o gael ei osod odanynt;

(b) yr amgylchiadau na chaniateir ei osod odanynt;

(c) yn achos cosb ariannol newidiol, y materion sy'n debyg o gael eu cymryd i ystyriaeth gan y rheoleiddiwr wrth benderfynu ar swm y gosb (gan gynnwys adroddiad gwirfoddol gan unrhyw berson am ei ddiffyg cydymffurfio ei hun); ac

(ch) hawliau i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau a hawliau i apelio.

(4) Yn achos canllawiau ynglŷn â hysbysiad stop, gwybodaeth am y canlynol yw'r wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(b)—

(a) yr amgylchiadau y mae'r rheoleiddiwr yn debyg o gyflwyno'r hysbysiad odanynt;

(b) yr amgylchiadau na chaniateir ei gyflwyno odanynt; ac

(c) hawliau i apelio.